OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 1822(Cy.179)

ANIFEILIAID, CYMRU

Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) (Diwygio) 2010

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2008, O.S. 2008/3154 (Cy.282) ("y prif Reoliadau") sy'n gorfodi Rheoliad (EC) Rhif 999/2001 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau i atal, rheoli a dileu rhai mathau o enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy (OJ Rhif L 147, 31.5.2001, t1) fel y'i diwygiwyd.

O dan y prif Reoliadau, mae'n ofynnol i weithredwyr lladd-dai gyflwyno samplau gwartheg i labordy a gymeradwywyd i'w profi ar gyfer TSE. Mae'r Rheoliadau hyn yn helaethu'r diffiniad o "labordy a gymeradwywyd" yn y prif Reoliadau. Bydd y diwygiad yn galluogi gweithredwyr lladd-dai (petaent yn dewis gwneud hynny) i anfon samplau o goesyn ymennydd gwartheg i un o Labordai Cyfeirio Cenedlaethol yr Undeb Ewropeaidd i'w brofi ar gyfer TSE neu i labordai a gymeradwywyd gan yr awdurdod cymwys mewn Aelod-wladwriaeth arall yn yr Undeb Ewropeaidd.

Ni pharatowyd asesiad effaith rheoleiddiol gan mai ychydig iawn o effaith a gaiff yr offeryn hwn ar gostau busnes.

2010 Rhif 1822 (Cy. 179)

ANIFEILIAID, CYMRU

Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) (Diwygio) 2010

Gwnaed

14 Gorffennaf 2010

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru

16 Gorffennaf 2010

Yn dod i rym *9 Awst 2010*

Mae Gweinidogion Cymru wedi'u dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) o ran mesurau yn y meysydd milfeddygol a ffytoiechydol ar gyfer diogelu iechyd y cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn o dan y pwerau a roddir gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972.

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) (Diwygio) 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 9 Awst 2010.

Diwygio Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2008

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2008(**3**) ("y prif Reoliadau") yn unol â pharagraff (2).

(**1**) O.S. 2008/1792.
(**2**) 1972 p. 68.
(**3**) O.S. 2008/3154 (Cy.282).

(2) Yn lle paragraff 4(3) o Atodlen 2 i'r prif Reoliadau, rhodder—

"4(3) Ystyr "labordy profi cymeradwy" yw—

(a) labordy a gymeradwywyd o dan y paragraff hwn;

(b) labordy a gymeradwywyd o dan ddeddfwriaeth gyfatebol mewn rhan arall o'r Deyrnas Unedig;

(c) un o Labordai Cyfeirio Cenedlaethol yr UE; neu

(ch) labordy diagnostig a gymeradwywyd gan Aelod-wladwriaeth yn unol ag Atodiad X i Rheoliad TSE y Gymuned.".

Elin Jones

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

14 Gorffennaf 2010